**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynglŷn â Phrofiadau Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol**

Rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi menywod yn y system cyfiawnder a'r rhai a all wynebu risg o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Yn 2019, gwnaethom gyhoeddi ein Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod a'n Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, sef rhaglen a ddatblygwyd ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r dull cydweithredol yn parhau hyd heddiw ac wedi ein galluogi i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer menywod yng Nghymru er mwyn helpu i gadw menywod a chymunedau yn ddiogel ac yn rhydd o droseddu. Roeddwn yn falch o weld cyfeiriadau at y rhain yn yr adroddiad, megis y Dull System Gyfan Braenaru Merched a'r gwasanaeth Ymweld â Mam; a bod yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i'w chael yn cael ei chydnabod.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn wynebu llawer o heriau, megis dedfrydau diangen ac aflonyddol o garchar a all gael effaith sylweddol ar eu plant a'u teuluoedd ac effaith anuniongyrchol ar dai a chyflogaeth. Rwy'n falch bod y Glasbrintiau wedi helpu i liniaru rhai o'r heriau hynny a gallaf eich sicrhau bod swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyfiawnder er mwyn sicrhau y gall menywod gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Hoffwn ddiolch i aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd â'n partneriaid cyfiawnder ehangach, megis y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a gallaf roi sicrwydd i aelodau'r pwyllgor y bydd yr argymhellion yn helpu i lywio'r agenda bwysig hon yn y dyfodol.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

<u>Argymhelliad 1</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle hwn i sicrhau bod eglurder llwyr ynglŷn â chyllid ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru, a byddwn yn gweithio

gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cyflawni'r argymhelliad. O ystyried cymhlethdod yr ymarfer mapio a phwysigrwydd sicrhau ein bod yn darparu darlun cwbl dryloyw yn drylwyr rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn yr Hydref.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i gael cyfrifoldeb datganoledig am gyfranogiad menywod yn y system cyfiawnder troseddol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i ddatganoli cyfiawnder yng Nghymru, ac rydym yn cytuno y gallai canlyniadau ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru gael eu gwella'n sylweddol drwy ddatganoli. Er gwaethaf cyflawniadau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, rydym yn nodi ac yn cydnabod disgrifiad Dr Robert Jones bod gallu llywodraeth ddatganoledig i weithredu fel lluniwr polisi effeithiol yn gyfyngedig ac, yn y pen draw, yn cael ei danseilio gan y ffaith bod Llywodraeth y DU yn rheoli'r rhan fwyaf o ysgogiadau polisi allweddol cyfiawnder troseddol.

Mae Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn nodi rhai o elfennau craidd dull Llywodraeth Cymru i gynllunio system cyfiawnder troseddol datganoledig sy'n canolbwyntio ar atal. Er enghraifft, mae'n nodi uchelgeisiau ar gyfer lleihau maint poblogaeth carchardai, gan gynnwys defnyddio dulliau amgen yn hytrach na'r ddalfa a lleihau'r defnydd o ddedfrydau byr, ac i sicrhau bod yr holl arferion ym mhob rhan o'r system yn cael eu llywio gan drawma, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o effaith bosibl profiadau niweidiol plant ar ddyfodol unigolyn. Lle mae'r dyheadau hyn yn berthnasol i ddynion yn ogystal â menywod, maent yn debygol o fod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â menywod yn y system cyfiawnder troseddol.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol pe bai cyfiawnder yn cael ei ddatganoli yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Er mwyn sicrhau bod y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn cael ei wreiddio, dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei heglurhad gweledol o waith y Glasbrint a darparu

trosolwg manwl o'r holl gynlluniau sy'n mynd rhagddynt a'r cynlluniau peilot, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni, amserlenni, camau a gymerwyd ac adroddiadau, i sicrhau bod pob sefydliad sydd â diddordeb mewn cefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mehefin 2023.

**Ymateb: Derbyn**

Mewn cydweithrediad â phartneriaid cyfiawnder, byddwn yn ceisio adeiladu ar adnodd gweledol Cyfiawnder i Fenywod er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r cymorth sydd ar gael i fenywod yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn a'r amser y bydd angen ei neilltuo er mwyn dal ehangder y cymorth cynhwysfawr sydd ar gael. Cynigir y bydd eglurhad gweledol manylach o waith y Glasbrintiau yn cael ei ddatblygu yn dilyn y cadarnhad ynglŷn â'r camau nesaf ar gyfer y Glasbrintiau yn yr Hydref.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

<u>Argymhelliad 4</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau gweithredu yn flynyddol, sy'n cynnwys:

- disgrifiad manylach o gynnydd yn erbyn y nodau sydd wedi'u datgan yn y Glasbrint; a
- statws ac amserlen y cynlluniau peilot sydd ar waith gan gynnwys y camau nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol ein bod yn cyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu yn flynyddol fel modd i dynnu sylw at y cynnydd a'r cyflawniadau hyd yma. Byddwn yn parhau â'r dull hwn ac rydym yn ceisio adeiladu ar ein dulliau adrodd presennol fel rhan o'r trafodaethau parhaus i benderfynu ar y camau nesaf ar gyfer y Glasbrintiau.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

<u>Argymhelliad 5</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ei gweithgarwch o ran Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ar ymyrraeth gynnar ac atal fel ei fod yn cyrraedd pob rhan o Gymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae cynlluniau datrysiadau ar gyfer menywod wedi bod ar waith ledled heddluoedd yng Nghymru ers 2019.  Yn Ne Cymru a Gwent, mae'r llwybr ymyrraeth gynnar wedi cael ei gyflawni fel rhan o wasanaeth dull system gyfan ehangach ar gyfer menywod, a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Gwent a De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

Mae comisiynwyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Gwent a De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (mewn ymgynghoriad â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Gogledd Cymru) wedi llunio'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau integredig ar gyfer menywod ledled Cymru. Mae Manyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru newydd i Fenywod yn ceisio adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a'r dystiolaeth sylweddol a gasglwyd drwy'r Glasbrint hyd heddiw, er mwyn integreiddio ac uno gwasanaethau allweddol i fenywod a darparu cyfleoedd gwell i fenywod gael gafael ar gymorth o'r dechrau i'r diwedd, yn unol â gweledigaeth y system gyfan ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn ei chyllideb er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dulliau system gyfan ar gyfer menywod ledled Cymru gyfan.

Bydd y Fanyleb newydd hefyd yn nodi dull ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni nifer o flaenoriaethau partneriaeth cenedlaethol allweddol, gan gynnwys gwaith i wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn menywod a merched.
- Atal a lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
- Sicrhau bod system cyfiawnder troseddol gwrth-hiliol ar waith yng Nghymru.

Bydd y Fanyleb yn mynd allan i dendr ym mis Ebrill/Mai 2023 a disgwylir iddi fynd yn fyw ledled Cymru ym mis Ionawr 2024.

**Goblygiadau Ariannol:**  Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

<u>Argymhelliad 6</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a phartneriaid lleol i nodi ble y dylid datblygu Canolfannau Menywod ymhellach. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cynlluniau sydd ganddi hi a phartneriaid eraill i ddatblygu ffrydiau ariannu cynaliadwy i gefnogi'r gwaith o greu'r Canolfannau hyn a'r gwaith a wneir ganddynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn ymrwymedig i greu amgylcheddau diogel lle y caiff plant a menywod eu hamddiffyn rhag niwed a'u cefnogi i ffynnu. Mae'r Glasbrint i Fenywod yn gweithio gyda phartneriaid i gryfhau'r rhwydwaith o ganolfannau/hybiau ar gyfer menywod a lleoedd diogel iddynt ledled Cymru, gan weithio tuag at y weledigaeth o gael canolfan/hwb ar gyfer menywod ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru: Mae'r gweithgarwch penodol canlynol yn cael ei ddatblygu:

- Datblygu gweithgarwch yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â'r galw a'r angen, ynghyd â mapio'r ddarpariaeth a'r bylchau presennol ar lefel awdurdod lleol.
- Dylunio (drwy ddull cydgynhyrchu) manyleb graidd sy'n amlinellu dilysnodau arfer da ar gyfer canolfannau i fenywod yng Nghymru.
- Ymgysylltu â darparwyr canolfannau i fenywod presennol, comisiynwyr a fforymau lleol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Cynllunio Ardal) er mwyn nodi llwybrau ariannu cynaliadwy, ac i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o fuddiannau unigol canolfannau i fenywod a buddiannau'r system gyfan, a rôl y gwasanaethau allweddol o fewn hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

<u>Argymhelliad 7</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Nod ffrwd waith Datrysiadau Cymunedol y Glasbrint i Fenywod yw datblygu, gwella a chodi ymwybyddiaeth o'r opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar drwy weithio yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a gyda phartneriaid, darparwyr a dedfrydwyr er mwyn sicrhau bod opsiynau cadarn ac effeithiol ar gael i fenywod sy'n ymddangos yn y Llys. Mae hyn yn cynnwys gwella'r defnydd o brosiectau Gwaith Di-dâl a'r gwaith o'u cyflawni, datblygu Rhaglenni wedi'u Hachredu ac ymyriadau strwythuredig ar gyfer menywod, a chynyddu'r defnydd a'r amrywiaeth o opsiynau gwasanaethau Monitro Electronig a sicrhau bod pob aelod o staff sy'n darparu opsiynau cymunedol yn cael eu hyfforddi ac yn meddu ar sgiliau i weithio gyda menywod. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i wella mynediad at iechyd a llety wrth i fenywod fwrw dedfrydau cymunedol er mwyn cynyddu eu gallu i gydymffurfio ac osgoi dedfrydau o garchar byrdymor o ganlyniad i dorri dedfrydau cymunedol.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod buddiannau darparu llety ar gyfer menywod agored i niwed gydag anghenion cymhleth a fyddai fel arall yn cael eu dedfrydu i garchar. Mae'r cais cynllunio yn nwylo Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei nodi drwy gwblhau gwaith ar y Ganolfan Breswyl i Fenywod unwaith y daw'r broses gynllunio bresennol i ben.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod.

**Ymateb: Derbyn**

Os bydd y cynlluniau ar gyfer Canolfan Breswyl i Fenywod yn mynd yn eu blaen, byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn diwallu anghenion y menywod a'u bod yn gyson â'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gyfraniad ariannol y disgwylir iddi ei wneud i gefnogi menywod yn y ganolfan beilot, pe bai'n mynd yn ei blaen, a beth allai'r goblygiadau ariannu fod i Ddinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd hyn yn cael ei nodi drwy gwblhau gwaith ar y Ganolfan Breswyl i Fenywod unwaith y daw'r broses gynllunio bresennol i ben.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fonitro'r defnydd o Adroddiadau Cyn Dedfrydu a nodi anghysondebau, gan gynnwys yr effaith ar les plant. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau defnydd mwy cyson a gwell o Adroddiadau Cyn Dedfrydu ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Prosiect Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn monitro Adroddiadau Cyn Dedfrydu a data ar ddedfrydu bob chwarter, er mwyn cefnogi dull seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni prosiectau, gan adrodd yn ôl i Fwrdd Rhaglen Glasbrintiau Llywodraeth Cymru ar gynnydd drwy goladu adroddiadau ar uchafbwyntiau.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi wedi llunio ac ehangu model ymgysylltu â'r llys haenog seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei roi ar waith ledled Cymru ar hyn o bryd. Lluniwyd canllawiau penodol er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu Adroddiadau Cyn Dedfrydu o ansawdd, sy'n ystyried yr anghenion a'r cymhlethdodau penodol sy'n gysylltiedig â menywod. Mae cyswllt sylweddol wedi'i gynnal â'r dedfrydwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o effeithiau dedfrydau byr o garchar ac i hyrwyddo dulliau cymunedol amgen hefyd. Bydd hyfforddiant seiliedig ar rywedd yn cael ei roi ar waith i ddedfrydwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y llys yn ystod 2023 hefyd. Mae dadansoddiad at wraidd y gwaith mewn perthynas ag ardaloedd llys penodol gyda thueddiadau o ddedfrydau carchar i fenywod ar waith, gyda'r hyn a ddysgir ac argymhellion yn llywio datblygiad ymarfer o fewn ardaloedd llys penodol a ledled Cymru.

Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi hefyd yn gweithredu ar argymhellion a wnaed yn ystod y cynllun peilot ar Adroddiadau Cyn Dedfrydu, a fydd yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd er mwyn llywio gwaith dylunio'r Llys yn y dyfodol. Bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu a'i ddefnyddio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn argyhoeddiadol ac yn gwneud cais i ohirio achos pan fo angen i ddarparu asesiad o ansawdd ac i ddeall anghenion yr unigolyn yn well. Bydd prosesau ar gyfer nodi achosion yn gynnar a fyddai'n elwa ar Adroddiad Cyn Dedfrydu yn parhau yn unol â'r strategaeth llys gweithredol cenedlaethol. Bydd cyfrolau Adroddiadau Cyn Dedfrydu ar garfanau â blaenoriaeth (sy'n cynnwys menywod fel un o'r carfanau â blaenoriaeth) o fewn perfformiad yn parhau i gael eu monitro, gyda'r canfyddiadau yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru drwy lywodraethu Glasbrintiau.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

<u>Argymhelliad 12</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) i sicrhau bod carcharorion yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys sut i gysylltu ag Aelodau etholedig o'u hetholaethau cartref, i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi sy'n gyfrifol am y wybodaeth mewn carchardai. Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am sut i gysylltu ag Aelodau etholedig yng Nghymru ar gael i fenywod yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

<u>Argymhelliad 13</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i:

- gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect Ymweld â Mam;
- asesu a oes digon o adnoddau ar gael i hwyluso gwaith sy'n galluogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad fel ymweliadau 'purple visits'.

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o Wasanaeth Ymweld â Mam PACT gan Brifysgol Caerdydd a Cascade yn 2017. Tynnodd y Gwerthusiad sylw at nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ar gyfer y menywod a'u plant a'u gofalwyr. Gellir gweld copi o'r adroddiad isod:

Adroddiad-Terfynol-PACT.-12.7.12.pdf (caerdydd.ac.uk)

Byddwn yn parhau i fonitro'r broses o gyflawni'r gwasanaeth Ymweld â Mam, a bydd Llywodraeth Cymru yn cadeirio'r grŵp Cysylltu Teuluoedd i fonitro'r gwaith ar helpu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad â nodi meysydd i'w gwella o bosibl ac ehangu'r gwaith hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru greu canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod menywod yn cael eu haduno â'u plant mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn dilyn dedfryd o garchar.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yng nghyhoeddiad adroddiad y Pwyllgor, nid oes canllawiau penodol ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas ag ailuno menywod a phlant yn dilyn dedfryd o garchar. Fodd bynnag, ceir dyletswyddau i hyrwyddo cyswllt a chaiff y gydberthynas rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd ei hystyried yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ("y Ddeddf") a gaiff ei nodi ac y tynnir sylw ati yn y Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) a ategir gan Ran 6 o'r Ddeddf. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi pwysigrwydd cydweithio rhwng yr Awdurdodau Lleol â theuluoedd er mwyn galluogi'r broses o ailuno â'r teulu lle y bernir i hynny fod yn unol â llesiant y plentyn. Byddai hyn hefyd yn cynnwys anghenion y plant a fydd yn Derbyn Gofal am fod eu rhiant yn bwrw dedfryd yn y carchar.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaeth ddadwenwyno breswyl sydd ar gael i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, a sut y caiff ei darparu.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o wasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaeth dadwenwyno i gleifion mewnol a gwasanaeth adsefydlu preswyl sydd ar gael ledled Cymru. Mae ein Fframwaith Rehab Cymru yn cynnig ystod o leoliadau triniaeth preswyl, gan gynnwys gwasanaethau dadwenwyno, yng Nghymru a Lloegr. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi sy'n gyfrifol am fenywod mewn carchardai. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth ynglŷn â chael gafael ar wasanaethau dadwenwyno a gwasanaethau adsefydlu preswyl ei wella ac ar gael i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei barn ar yr adolygiad sydd ar y gweill gan GIG Lloegr ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a nodi unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb wedi i'r adolygiad gael ei gyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Rydym yn rhagweld y gellir bodloni costau uniongyrchol yr argymhellion gan ddefnyddio cyllidebau rhaglenni presennol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 1267 sydd â chyllideb o £1.075m yn 2023-24 a chyllideb ddangosol o £1.075m yn 2024-25.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac awdurdodau lleol i gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r 16 awdurdod lleol arall, archwilio opsiynau ar gyfer llety â chymorth i fenywod risg isel sy'n agored i niwed a gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod risg uchel. Dylid gwneud y gwaith hwn cyn hydref 2023.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran tai i bobl sy'n gadael y ddalfa. Fel yr amlinellwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a gaiff ei arwain gan y Gwasanaeth, i ddatblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda phob awdurdod lleol ledled Cymru i ddarparu llety cychwynnol. Ceir manteision i'r cydweithio rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'r awdurdodau lleol i ystyried yr holl opsiynau o ran tai i fenywod, sy'n ystyried eu hanghenion unigol. Gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gall menywod gael cymorth gyda datrysiadau tai sy'n darparu cartrefi addas a help i dorri cylchoedd ailadroddus digartrefedd a gallant gael lleoedd diogel er mwyn iddynt ddechrau ailadeiladu eu bywydau yn ddiogel yn y cymunedau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac awdurdodau lleol, fel sefydliadau cyflawni, i sefydlu'r broses o weithio mewn partneriaeth a'i chryfhau yn yr ardal hon. Fodd bynnag, mae angen i'r partïon sydd wedi'u llofnodi gytuno ar fanylion penodol Cytundebau Lefel Gwasanaeth a threfniadau gweithio'n weithredol, a lle y byddwn yn cefnogi'r camau hyn ac yn eu hannog, rhaid i'r partïon hyn ymgysylltu'n weithredol er mwyn datblygu datrysiadau y gellir eu cyflawni ganddynt. Bydd amseriad cyflawni'r cytundebau ffurfiol hyn hefyd yn dibynnu ar y ddau barti sydd wedi'i lofnodi, a byddwn yn parhau i annog awdurdodau lleol a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i flaenoriaethu hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

<u>Argymhelliad 18</u>

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ac arloesi i weld pa atebion llety y gellid eu datblygu yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau ar wasanaethau tai ledled Cymru, gyda nifer y bobl ddigartref yn parhau'n uchel, gan gynnwys pobl sy'n gadael y ddalfa. Lle y mae hyn yn dangos y pwysau ehangach ar y system, mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ni roi'r ystod eang o bolisïau a systemau ar waith i gefnogi'r rhai sy'n ddigartref, i nodi arfer gorau a chreu datrysiadau y gellir eu hehangu ar gyfer y bobl sy'n gadael y ddalfa. Caiff diweddariadau cynnydd ar y maes hwn eu rhannu yn ystod y Bwrdd Llety Strategol a gaiff ei gadeirio ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.


Ledled Cymru, rydym yn ariannu saith prosiect Tai yn Gyntaf ac mae nifer o awdurdodau lleol hefyd yn ariannu eu prosiectau eu hunain, gyda'r nod o gefnogi pobl ag anghenion cymhleth uwch i gael llety. Fel rhan o'r prosiectau hyn, caiff y tenantiaid gymorth cofleidiol i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau ac i hyrwyddo eu llesiant unigol a'u safon byw. Ceir sawl astudiaeth achos sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio i unigolion sydd â lefel uchel o anghenion mewn sawl maes, ac yn benodol y rhai sydd o bosibl yn ei chael hi'n anodd ymddiried mewn darparwyr gwasanaeth.

Mae'r rhaglenni hyn yn meithrin ymddiriedaeth rhwng unigolion â gweithwyr achos a phartneriaid ehangach, gan eu grymuso i gymryd rheolaeth o'u bywydau mewn amgylchedd cefnogol a rhoi'r cyfle iddynt gymryd y camau hyn yn eu cartref diogel. Mae'r data sy'n dangos effeithiolrwydd y dull hwn yng Nghymru yn addawol iawn, gyda'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf yn adrodd cyfradd cynnal tenantiaethau o 90% ar gyfer pobl sydd wedi ei chael hi'n anodd cynnal unrhyw fath o gysylltiad â gwasanaethau yn hanesyddol, heb sôn am gadw tenantiaeth.

Yn yr un modd, mae pob awdurdod lleol wedi datblygu, neu'n gweithio tuag at ddatblygu cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym i'w helpu gyda'r broses bontio er mwyn ymgorffori'r cysyniad o ailgartrefu cyflym, y mae Tai yn Gyntaf a chymorth yn elfennau allweddol yn y broses o gefnogi pobl i gael gafael a'r gartref sefydlog a'i gynnal. Mae'r cysyniad hwn yn dibynnu ar ddull sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn i weithio gydag unigolion er mwyn nodi eu hanghenion penodol i'w helpu i gael cartref yn gyflym. Mae hyn yn darparu'r sylfaen cychwynnol ar gyfer y gwasanaethau cymorth a thai y mae'r unigolion hynny sy'n gadael y ddalfa eu hangen, ac sydd o bosibl yn agored i niwed neu'n wynebu risg yn sgil ffactorau risg eraill. Datblygwyd a seiliwyd Ailgartrefu Cyflym ar y gofyniad y caiff anghenion yr unigolyn eu deall a'u diwallu wrth ddarparu datrysiadau tai iddynt.

Er mai megis dechrau mae Ailgartrefu Cyflym ar hyn o bryd ac y bydd yn cymryd amser i awdurdodau lleol drosi a'i ymgorffori'n llawn ym mhob rhan o'u gwasanaethau, rwyf wedi comisiynu ymchwil er mwyn gwerthuso ac asesu rhai o'r ymyriadau digartrefedd mwyaf blaengar yng Nghymru, gan gynnwys ein prosiectau Tai yn Gyntaf. Diben yr ymchwil hon fydd cefnogi gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau ehangach ym mhob rhan o'r awdurdodau lleol i bontio o'r argyfwng a ddeilliwyd yn sgil y pandemig. Bydd y dystiolaeth a gynhyrchir hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Mae'r ymchwil hon yn seiliedig ar ddull astudiaeth achos a bydd yn cynnwys ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad bywyd o'r gwasanaethau presennol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ein helpu i nodi arfer gorau, ac i roi datrysiadau creadigol ac arloesol ar waith er mwyn helpu'r rhai sy'n gadael y ddalfa i gael cartrefi sefydlog addas.

**Goblygiadau Ariannol:** Er na ragwelir y bydd costau byrdymor, gallai'r gwaith hwn arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi ar ddatblygu'r broses o ddatganoli cyfiawnder i Gymru). Nid yw'n bosibl cwmpasu costau'r gwaith hwn ar y cam cynnar hwn, ond mae'n debygol y bydd y rhain yn fwy na'r gyllideb sylfaenol sydd ar gael. Bydd rhagor o ystyriaeth i ddichonoldeb y broses o gyflawni'r gwaith hwn yng nghyd-destun yr arian fydd ar gael drwy gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.



Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol